# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 18fed o Dachwedd 2020 am 8.00yh drwy Zoom.

**PRESENNOL:** Cyng W Evans, G Evans, H James, R Gallie, J Phillips, D Lewis, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng I Saer.

**COFNODION**: Darllenwyd cofnodion cyfarfod Medi 16eg a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Cyng J Lewis (CSC) – Eitem 11 Cynllunio.

**MATERION YN CODI**: Dim

**PRYNU CIOSG:**
Trafododd a chymeradwyodd y Cyngor bryniant ciosg ffon BT yng Nghwmfelin Mynach fel lleoliad posibl i ddiffibriliwr.

**CAE CHWARAE BLAENWAUN:**
Mae gardd bywyd gwyllt wedi ei osod yn y cae chwarae. Diolchodd y Cyngor i'r Cyng G Evans am gynorthwyo efo'r gwaith. Sylwyd fod eisiau torri'r cloddiau o amgylch y cae chwarae. Trafodwyd hefyd cael grant i adnewyddu cyfarpar chwarae y plant.

**CYTUNDEB TRYDAN I'R NEUADD GYMUNED:**
Trafododd a chymeradwyodd y Cyngor dderbyn cytundeb adnewyddiad SSE am gyflenwi trydan i'r neuadd gymuned.

**GOHEBIAETH:**
Hysbyswyd y Cyngor gan gyflenwr y gwsanaeth cyflogres o godiad yn y ffi o £66 i £72 y flwyddyn o Ebrill 2021. Cymeradwyodd y Cyngor y codiad.

**DERBYNIADAU**:

| | |
|---|---|
| Twrbin Aura Wind (Plasparcau) - cronfa gymunedol | £885.77 |
| Robinson – rhent tir | £313.00 |
| H. James – rhent tir | £407.00 |
| G James – rhent tir | £869.00 |

**BILIAU:** Dim

**CYNLLUNIO**: (Gwnaeth Cyng J Lewis CSC ddatgan diddordeb a gadawodd y cyfarfod)
PL/00509 – Estyniad tŷ awgrymedig a gwaith cysylltiedig – Myrtle Hill Cottage, Cwmbach, Whitland, SA34 0DP.

**U.F.A.**
Mae rhwystr yn y ffos rhwng Elwyn a Fferm y Coleg yn gorfodi dwr i redeg ar yr heol – clerc i gysylltu a CSC.

Penderfynodd y Cyngor i hysbysu swydd y clerc a thir i'w rhentu yn y papur cymunedol – Y Cardi Bach, yn ychwanegol i wefan y Cyngor.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher 20fed o Ionawr 2021 drwy Zoom.**